

CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Adroddiad ar y Gwrthwynebiad

**Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg  
arbennig yn y Fro trwy:**

- **Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol y Deri i addysgu  
150 o ddisgyblion ychwanegol; a**
- **Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn  
Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n  
gweithredu fel safle ychwanegol o dan reolaeth Ysgol  
Y Deri.**

Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.

Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os bydd angen.

Cysylltwch â ni ar [21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk) neu 01446 709828 i drefnu hyn.



# Cynnwys

Cefndir	3
Adroddiad am yr Ymgynghoriad	3
Hysbysiad Statudol	3
Gwrthwynebiadau i'r Cynnig	4
Casgliad	12

## Cefndir

Cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori o **6 Tachwedd 2020 i 20 Rhagfyr 2020** ar y cynnig i drawsnewid addysg arbenigol drwy:

- \* **Gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol y Deri i addysgu 150 o ddisgyblion ychwanegol; ac**
- \* **Codi adeilad newydd ar y safle a ffefir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol o dan reolaeth Ysgol y Deri.**

Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i ymgynghoreion rhagnodedig am y cynnig i ad-drefnu'r ysgol sy'n cael ei gyflwyno dan adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac y cyfeirir ato fel newid a reoleiddir mewn ysgol, sy'n cynnwys;

- cynyddu capasiti ysgol arbennig gan o leiaf 10% neu 20 o leoedd; a
- throsglwyddo unrhyw ysgol i safle neu safleoedd newydd.

Roedd y broses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd yn cynnig cyfle i ymgynghoreion rhagnodedig yn ogystal ag aelodau'r gymuned leol ddysgu am y cynnig ac i Gabinet y Cyngor glywed barn y rheiny oedd â diddordeb ynddo fel y gellid eu hystyried cyn bwrw ati i wneud unrhyw benderfyniadau.

Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, derbyniwyd 102 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r ymgynghoreion am eu barn ar y cynnig. O'r 102 o ymatebion unigol ddaeth i law roedd 90 (88%) o blaid y cynnig, 11 (11%) yn erbyn y cynnig, a doedd gan 1 (1%) ddim unrhyw farn y naill ffordd na'r llall. Cyhoeddwyd yr ymatebion yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.

## Adroddiad am yr Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ôl yr ymarfer ymgynghori. Diben yr adroddiad ymgynghori yw rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac ymateb y Cyngor i unrhyw faterion a godwyd. Ystyriwyd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad gan Gabinet y Cyngor ar 8 Chwefror 2021.

## Hysbysiad Statudol

Ar ôl ystyried yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, penderfynodd Cabinet y Cyngor i fwrw ymlaen â'r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar y cynnig ar 22 Chwefror 2021, a sbardunodd y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod. Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefan Cyngor Bro Morgannwg

(<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/ALN-phase-iii-Ysgol-Y-Deri-Expansion.aspx>) a chafodd ei arddangos ar brif fynedfeydd yr ysgolion yr oedd y cynnig yn berthnasol iddynt. Dosbarthwyd copïau o'r hysbysiad i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr ac aelodau staff, yn ogystal ag i ymatebwyr a oedd yn dymuno cael eu hysbysu. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 rhoddwyd copi o'r llythyr a'r hysbysiad i bob sefydliad ac ymgynghorai fel atodiad i'r e-bost yn ogystal â dolen i'r hysbysiad ar y wefan.

Yn unol ag adran 49 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn cyn pen 28 diwrnod, yn dechrau o'r diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion, hynny yw erbyn 22 Mawrth 2021.

Pan fydd gwrthwynebiadau yn dod i law mewn perthynas â hysbysiad statudol, mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

## Gwrthwynebiadau i'r Cynnig

Daeth 2 wrthwynebiad unigol i law'r Cyngor erbyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Ceir crynodeb o'r gwrthwynebiadau isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Nododd y ddau wrthwynebiad fod y safle arfaethedig yn anaddas ac na fyddai'r seilwaith o amgylch y safle yn ddigonol.

### **Thema Gwrthwynebiad 1: Mae'r safle arfaethedig yn anaddas**

Mynegodd ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r dewis o safle oherwydd llifogydd, halogiad ac y byddai adeiladu ar y safle hwn yn arwain at golli mannau gwyrdd cymunedol.

#### **Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiad a godwyd**

Ar hyn o bryd mae Ysgol y Deri yn rhan o Gymuned Ddysgu Penarth ochr yn ochr ag Ysgol Gyfun Sant Cyres. Roedd sefydlu Gymuned Ddysgu Penarth yn ganlyniad buddsoddiad o £50m i adeiladu cyfleusterau addysg o'r radd flaenaf. Nid yw'n bosibl cynyddu capasiti Ysgol y Deri ar y safle presennol ymhellach oherwydd y lle allanol cyfyngedig sydd ar gael, a'r effaith debygol y byddai hyn yn ei chael ar y seilwaith lleol o amgylch y safle. Mae safle Gymuned Ddysgu Penarth eisoes yn addysgu tua 1,400 o ddysgwyr.

Y dull a ffeirir yw adeiladu adeilad ysgol newydd ar safle ar wahân a fyddai'n rhan o Ysgol y Deri. Byddai adeilad ychwanegol yr ysgol yn addysgu disgyblion oedran

cynradd yn bennaf. Fodd bynnag, byddai'r ysgol yn gweithredu dull sy'n seiliedig ar anghenion i bennu rhaniad disgyblion ar draws y ddau safle. Byddai hyn yn lleihau'r angen i ddyblygu'r holl gyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol y Deri.

Ystyriodd y Cyngor ystod eang o safleoedd i ehangu Ysgol y Deri. Roedd hyn yn golygu ystyried safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor i ddechrau ac yna cafodd ei ehangu i gynnwys safleoedd a allai fod ar gael i'w prynu.

Ni nodwyd unrhyw safleoedd tir llwyd a oedd yn bodloni'r gofynion ar gyfer adeilad arfaethedig yr ysgol. Gan y byddai'r ysgol yn ffurfio rhan o Ysgol y Deri, ystyriwyd hefyd ei bod yn hanfodol bod yr adeilad yn agos at adeilad presennol Ysgol y Deri gan y byddai staff yn gweithio ar draws y ddau safle.

Mae'r Cyngor wedi nodi safle a ffefrir sydd wedi'i leoli wrth ymyl datblygiad arfaethedig 'Tir ar Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog' sydd wedi'i ddyrannu fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig y Cyngor 2011-26. Mae'r ardal hon yn darparu digon o le i godi adeilad newydd arfaethedig yr ysgol ac mae tua 3 milltir o safle presennol Ysgol y Deri .

Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar y safle a ffefrir ar hyn o bryd ac mae gan y Cyngor gytundeb mewn egwyddor i brynu'r tir, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio.

Byddai dyluniad adeilad yr ysgol yn ategu'r amgylchoedd. Byddai tir agored yn cael ei gadw gymaint â phosibl i ddarparu mannau chwarae allanol at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned y tu allan i oriau ysgol. Byddai deunyddiau naturiol hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer adeilad yr ysgol lle bynnag y bo modd.

Byddai'r effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar fannau gwyrdd yn ystyriaeth fel rhan o'r broses gynllunio.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai rhywogaethau coed a llystyfiant addas i wella'r safle yn cael eu nodi drwy arolygon ecolegol helaeth. Byddai'r tîm dylunio hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau bod sgiliau sy'n seiliedig ar natur yn cael eu datblygu drwy ddarpariaeth awyr agored wedi'i theilwra at y pwrpas. Mae ysgolion a godwyd ym Mand A Ysgolion yr 21ain Ganrif hefyd wedi creu ardaloedd natur yn y gorffennol gyda phyllau, gwestai pryfed, a phlannu fel rhan o'u mannau dysgu yn yr awyr agored.

Byddai'r holl ddewisiadau safle o fewn y safle arfaethedig yn cael eu hystyried ac yn destun cais cynllunio llawn. Byddai hyn yn cynnwys astudiaethau dichonoldeb i berygl llifogydd, yn y presennol ac yn y dyfodol.

Byddai'r dyluniad yn amodol ar ofynion systemau draenio cynaliadwy (SDCau) sy'n cynnwys dyluniadau helaeth ar gyfer rheoli dŵr wyneb; h.y. rhaid i gyfraddau llif dŵr fodloni gofynion penodol a ellir eu cyflawni drwy atebion naturiol fel pantiau a gerddi glaw. Byddai angen cymeradwyaeth CCDC (y Corff Cymeradwyo SDCau) ar y Cyngor cyn dechrau adeiladu.

Byddai dyluniad adeilad newydd yr ysgol hefyd yn amodol ar ganiatâd cynllunio. Ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r broses hon.

Byddai unrhyw halogiad o'r safle yn cael ei ymchwilio yn ystod arolygon safle fel rhan o'r broses gynllunio. Byddai'r tir yn cael ei adfer pe deuid o hyd i unrhyw broblemau i sicrhau ei fod yn bodloni safonau sy'n briodol ar gyfer amgylchedd ysgol.

## **Thema Gwrthwynebiad 2: Nid yw'r seilwaith o amgylch y safle arfaethedig yn ddigonol**

Mynegodd ymatebwyr bryderon y byddai tagfeydd traffig yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig.

### **Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiad a godwyd**

Mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad dan sylw yn cael ei gynnal yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan ganolbwyntio ar rinweddau addysgol cynnig. Mae goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn ystyriaethau allweddol fel rhan o'r broses gynllunio sy'n cael ei datblygu ar wahân i'r ymgynghoriad hwn.

Gan fod prynu'r safle yn ddibynnol ar y Cyngor yn cael caniatâd cynllunio, mae Cais Cynllunio Amlinellol yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Mae'r broses gynllunio yn cynnwys ymgynghoriad statudol ar wahân â thrigolion lleol. Yn gyntaf, mae'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (YCY) yn caniatáu i breswylwyr roi adborth ar y dyluniad arfaethedig. Lanswyd yr YCY ar 4 Ionawr 2021 a daeth i ben ar 2 Chwefror 2021. Mae'r adborth a dderbyniwyd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel rhan o'r datblygiad dylunio. Byddai'r dyluniad terfynol wedyn yn amodol ar y broses gynllunio ffurfiol. Byddai trigolion lleol yn cael gwybod am y cais cynllunio a byddent yn gallu cyflwyno adborth a fyddai'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

Fel rhan o'r broses gynllunio, rhaid i'r Cyngor ddatblygu asesiad trafniadaeth llawn i bennu'r effaith debygol y byddai'r cynnig yn ei chael ar y seilwaith priffyrdd lleol. Mae'r asesiad trafniadaeth hefyd yn pennu'r gofyniad am gyfleusterau gollwng a chasglu ar y safle i ddarparu ar gyfer trefniadau cludiant i'r ysgol. Yn ogystal, mae'r asesiad trafniadaeth yn nodi sut mae'r cynnig yn ymateb i bolisiau cynllunio trafniadaeth ac yn dangos sut y mae'r cynnig yn anelu at wella opsiynau teithio cynaliadwy a hyrwyddo newid o geir preifat lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Os bydd angen, bydd yr asesiad trafniadaeth yn cael ei ddiwygio i ystyried yr adborth a gafwyd yn ystod ymarfer yr YCY.

Bydd disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gymwys i gael cludiant am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddothbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) a 3 milltir neu fwy (disgyblion oedran uwchradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl mesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Darperir cludiant i'r ysgol ar hyn o bryd i 229 o ddisgyblion yn Ysgol y Deri. Mae cyfanswm o 45 o gerbydau yn gwasanaethu'r safle presennol y gellir manylu arnynt fel a ganlyn:

- mae 5 cerbyd yn darparu cludiant i fwy na 10 disgybl;
- mae 5 cerbyd yn darparu cludiant i rhwng 6 a 10 disgybl; ac
- mae 35 cerbyd yn darparu cludiant i 5 disgybl neu lai.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai teithio llesol yn ystyriaeth bwysig o fewn dyluniad y safle i gefnogi gwireddu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Fel rhan o'r broses drosglwyddo, byddai tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif a chontractwyr yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun teithio wedi'i ddiweddarau a fyddai'n cefnogi mesurau i gynyddu teithio llesol i'r ysgol.

### **Thema Gwrthwynebiad 3: Dylid ehangu capasiti yng Ngorllewin y Fro**

Nododd yr ymatebydd y dylid ehangu capasiti ADY o fewn Gorllewin y Fro i leihau amser teithio gan ddysgwyr.

#### **Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiad a godwyd**

Er mwyn lleihau dyblygu meysydd arbenigol, a chyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb a ddyrannwyd, cynigir y bydd yr adeilad newydd yn darparu'n bennaf ar gyfer disgyblion oedran cynradd a bydd adeilad presennol Ysgol y Deri yn darparu'n bennaf ar gyfer disgyblion oedran uwchradd. Felly, ni fyddai adeiladu'r adeilad yng Ngorllewin y yn lleihau trafndiaeth gan na fyddai'r Cyngor yn gallu sefydlu dalgylchoedd ar wahân.

Mae'n werth nodi hefyd bod tua 72% o'r disgyblion sy'n cael eu cludo i Ysgol y Deri ar hyn o bryd yn byw ym Mhenarth, Llandochoau, Sili, Dinas Powys a'r Barri.

Gweithiodd y Cyngor yn agos gydag arweinyddiaeth Ysgol y Deri drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig. O safbwynt rheoli, ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod yr adeilad newydd yn cael ei adeiladu yn agos at y safle presennol. Mae hyn er mwyn hwyluso staff sy'n gweithio ar dy ddau safle i symud yn ôl ac ymlaen ac i sicrhau arweinyddiaeth effeithiol.

Oherwydd natur arbenigol y ddarpariaeth, mae gan Ysgol y Deri gymhareb uchel o staff i ddisgyblion. Pe bai'r adeilad newydd yn cael ei adeiladu yng Ngorllewin y Fro, byddai hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar drafndiaeth oherwydd y cynnydd mewn staff yn teithio rhwng y safleoedd. Byddai gan hyn oblygiadau hefyd o ran rheoli'r ddarpariaeth yn effeithiol.

## **Casgliad**

Mae'r Cyngor yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a safonau addysg yn y Fro drwy roi cymorth arbenigol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni ei ddyletswydd statudol i ddarparu nifer digonol o leoedd ysgol ac i fodloni anghenion rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed. Fel y nodwyd gan

ymatebwyr i'r ymgynghoriad, byddai'r bwriad i ehangu Ysgol y Deri yn galluogi mwy o ddisgyblion i gael mynediad at addysg arbenigol a allai gael eu heithrio fel arall.

Byddai'r cynnig yn arwain at amgylcheddau addysgu a dysgu priodol a fyddai'n hyrwyddo lles disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu. Mae'r adeilad newydd a'r safle ar gyfer ehangu Ysgol y Deri wedi'i ddylunio i fodloni anghenion ystod eang o ddisgyblion a byddai'n darparu mwy o fynediad at y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol

Byddai goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gynllunio sy'n cael ei datblygu ar wahân i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r broses gynllunio yn cynnwys ymgynghoriadau statudol ychwanegol â thrigolion lleol.

Bydd y Tîm ADY yn penderfynu ar gymhwysedd disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiad rhesymol ar gludiant prif ffrwd.